

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Gwallt, Harddwch a
Holisteg Broadway

Dyddiad arolygu: 02 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Gwallt, Harddwch a Holisteg Broadway ar 02 Mawrth 2020.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod gan Ganolfan Gwallt, Harddwch a Holisteg Broadway drefniadau addas ar waith i sicrhau bod ei myfyrwyr yn darparu gwasanaeth effeithiol i'w cleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau IPL.

Roedd nodiadau a chofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon uchel ac yn helpu'r ganolfan i ddarparu gofal unigol i'r cleifion.

Gwnaethom nodi rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i gynnwys y cwrs er mwyn helpu'r ganolfan i gydymffurfio â'i chyfrifoldebau rheoliadol.

Hefyd, mae angen i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau ei gofrestrriad ag AGIC bob amser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth berthnasol i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal
- Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben
- Roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr
- Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol ar gyfer ei rôl a'i chyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid i gleifion lofnodi yn ystod pob sesiwn driniaeth er mwyn cadarnhau p'un a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol ai peidio

- Dechrau casglu adborth gan gleifion am eu profiadau o'r driniaeth a'r gofal a gawsant
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu rhagarweiniol fel rhan o'u cwrs
- Cyflwyno cam asesu i ddarparu tystiolaeth bod y myfyrwyr yn gymwys i ddefnyddio'r peiriant IPL cyn eu bod yn trin cleifion
- Rhoi system ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon sy'n dod i law'r ganolfan

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Gwallt, Harddwch a Holisteg Broadway wedi'i chofrestru fel ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau Goleuni Pwls Dwys (IPL) yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, Heol Tycoch, Abertawe, SA2 9EB.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 17 Mai 2016 ac mae'n cyflogi un gweithredwr IPL sef y rheolwr cofrestredig enwebedig¹. Mae'r ganolfan yn darparu cyrsiau hyfforddi rhan amser i fyfyrwyr triniaethau harddwch a holistaidd, sy'n cynnwys cwrs sy'n cwmpasu hyfforddiant ac asesiad ar theori a defnyddio laser ac IPL.

Mae'r ganolfan wedi'i chofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i bobl dros 18 oed gan ddefnyddio peiriant Energist Ultra IPL:

- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen.

¹Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 fel rheolwr sefydliad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Cawsom sicrwydd fod y ganolfan yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i warchod preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynoriadau a thriniaethau.

Mae angen i'r gwasanaeth wneud mwy i gasglu adborth gan y cleifion am eu profiadau o'r driniaeth a'r gofal a gawsant a gweithredu ar yr adborth hwnnw.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Dau holiadur yn unig a gwblhawyd. Fodd bynnag, nododd y ddau glaf fod y gofal a'r driniaeth a gafwyd yn ardderchog.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Mae gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hymgyngoriad cyntaf er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn ddiogel ac yn addas ar gyfer pob claf. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni hanes meddygol wedi'u cwblhau ac wedi'u llofnodi yng nghofnodion y cleifion i gadarnhau'r dull gweithredu hwn.

Mae gweithredwr y peiriant IPL yn holi'r cleifion ar lafar am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol mewn apwyntiadau dilynol. Gwnaethom argymhell y dylid cofnodi bod hyn yn cael ei gadarnhau ar lafar yng nghofnodion y cleifion ac y dylai cleifion lofnodi i gadarnhau p'un a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol ai peidio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i gleifion lofnodi yn ystod pob sesiwn driniaeth er mwyn cadarnhau p'un a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol ai peidio.

Urddas a pharch

Cynhelir ymgynghoriadau â chleifion yn breifat er mwyn sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb fod neb yn clywed. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cleifion yn gallu newid yn yr ystafell driniaeth wag os oedd angen, a chânt dywelion er mwyn helpu i gynnal eu hurddas.

Dywedodd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch gan y staff yn y ganolfan ac roeddent yn teimlo eu bod wedi gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster bob amser yn ystod eu hapwyntiadau.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gall cleifion gael aelod o'r teulu, ffrind neu hebryngwr ffurfiol wrth law i'w cefnogi yn ystod ymgynghoriadau, ond nid yn ystod sesiynau triniaeth oherwydd yr ystafell driniaeth fach.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r cleifion yn gallu gwneud eu penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chydysnio i driniaeth. Mae'r cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â gweithredwr peiriant IPL (o dan oruchwyliaeth y rheolwr cofrestredig) cyn cael triniaeth i'w helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth sydd ar gael iddynt, a'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn.

Gwelsom fod cleifion wedi llofnodi ffurflenni yn rhoi eu cydysniad i driniaeth a bod y gweithredwr IPL wedi cydlofnodi'r rhain; gwnaethom nodi bod hyn yn arfer da.

Cyfathrebu'n effeithiol

Both patients who completed a HIW questionnaire told us that staff listened to them during their appointment and felt that they had been involved as much as they wanted to be in decisions about their treatment.

Roedd y gwasanaeth wedi creu canllaw i gleifion a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r canllaw i gynnwys crynodeb o farn y cleifion am eu profiadau o ofal a thriniaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y canllaw i gleifion ar gael yn y dderbynfa ar

gais yn unig; gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried rhoi copïau o'r canllaw ar ddesg y dderbynfa er mwyn sicrhau ei fod ar gael yn haws i gleifion.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben² i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o farn y cleifion am eu profiadau o ofal a thriniaeth yn y ganolfan.

Cynllunio a darparu gofal

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn triniaeth addas sy'n cael eu cwblhau ar gleifion er mwyn sicrhau bod y peiriant IPL wedi'i osod yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer y math o groen a gwallt sydd ganddynt. Mae'n ofynnol i gleifion gael prawf clwt ar ran fach o'u croen cyn cael triniaeth, a chaiff y canlyniadau eu nodi yn eu cofnodion. Cadarnhaodd y ddau glaf a gwblhaodd holiadur AGIC fod prawf clwt wedi'i gynnal cyn iddynt gael triniaeth.

Gwelsom enghraifft o restr gynhwysfawr o gyfarwyddiadau ôl-ofal a gofal cartref a rhoddir i gleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl eu triniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelwyd tystiolaeth eu bod yn cael eu cynnal i safon uchel, gan olygu bod diogelwch a llesiant cleifion, yn ogystal ag anghenion unigol, yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd maes parcio bach ar gael i gleifion y tu allan i'r ganolfan. Mae'r ystafell driniaeth IPL wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf ac o ganlyniad nid yw'n hygyrch i bobl â phroblemau symudedd. Mae'r problemau hygyrchedd hyn yn cael eu hegluro

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

i'r cleifion yn y datganiad o ddiben, ond rydym yn argymhell y dylid tynnu sylw'r cleifion at hyn yn y canllaw i gleifion hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion i roi gwybod i gleifion â phroblemau symudedd am y problemau hygyrchedd yn y ganolfan.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Esboniodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn siarad â'r cleifion yn rheolaidd i weld sut aeth eu triniaeth. Gofynnir hefyd i gleifion ddarparu adborth i'r rheolwr cofrestredig am berfformiad y myfyrwyr, sy'n rhan o'u hasesiad cyffredinol.

Fodd bynnag, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol ymhellach, argymhellwn y dylai'r ganolfan roi dull gweithredu fwy strwythuredig ar waith i geisio barn cleifion yn rheolaidd, megis dosbarthu holiaduron neu ffurflenni adborth. Yr arfer orau fyddai galluogi'r cleifion i roi eu barn yn ddiennw, a hysbysu'r cleifion am unrhyw newidiadau a wneir er mwyn dangos bod y ganolfan yn gwrandao ar yr adborth ac yn gweithredu arno.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth roi system ar waith i gasglu adborth rheolaidd gan y cleifion ar eu profiadau o'r driniaeth a'r gofal a gawsant.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, cawsom sicrwydd bod cleifion yn cael gofal unigol diogel ac effeithiol a bod y gofal hwnnw wedi cael ei ddogfennu'n dda mewn cofnodion cleifion cynhwysfawr.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da ac roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Gwnaethom awgrymu rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i gynnwys y cwrs hyfforddi er mwyn helpu'r ganolfan i gydymffurfio a'i chyfrifoldebau rheoliadol.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amodau ei gofrestrriad ag AGIC bob amser.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff, y myfyrwyr, a'r bobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod gwiriad wedi'i gynnal o'r gwifrau trydanol o fewn y pum mlynedd diwethaf. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn flynyddol hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiad risg tân wedi'i gynnal yn y safle yn ddiweddar ac roedd camau'n cael eu cymryd i leihau peryglon a risgiau tân posibl a nodwyd ac er mwyn helpu i ddarparu digon o ddiogelwch pe bai tân. Roedd y dyfeisiau diffodd tân yn y ganolfan wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd tân. Cawsom wybod bod profion larymau tân yn cael eu cynnal a'u dogfennu gan staff y dderbynfa yn unol â pholisi tân y coleg.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau priodol y dylid eu dilyn mewn argyfwng megis pe bai claf yn llewygu. Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar

gael yn y ganolfan gyda'i gynnwys i gyd o fewn eu dyddiadau dod i ben, ac felly roedd yn addas at y diben. Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, ond cadarnhaodd fod aelodau o'r staff a oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf addas ar gael mewn rhannau eraill o'r ganolfan. Efallai y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried dilyn cwrs cymorth cyntaf er mwyn iddi allu rhoi sylw ar unwaith pe bai digwyddiad.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol, ac roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus, er ei bod yn fach.

Roedd gan y coleg bolisi rheoli heintiau cyffredinol. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi amlinellu trefniadau ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn benodol ar gyfer gwasanaeth yr IPL ar restr wirio a oedd ar gael ar ddrws yr ystafell driniaeth. Roedd hyn yn cwmpasu gweithdrefnau fel sicrhau hylendid dwylo da a'r tasgau glanhau angenrheidiol ar gyfer yr ystafell driniaeth a'r peiriant IPL. Esboniodd y rheolwr cofrestredig fod y myfyrwyr yn cael gwybod am y gweithdrefnau hyn fel rhan o'u dysgu.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru drwy drin cleifion dros 18 oed yn unig. Ni chaiff plant ymweld â'r safle er eu diogelwch eu hunain.

Gwelsom fod polisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn oedolion agored i niwed a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu oedolion lleol perthnasol er mwyn sicrhau y gellir rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn briodol ac yn amserol.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu er mwyn gwella ei gwybodaeth ac ymwybyddiaeth mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed a all fod mewn perygl. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y caiff myfyrwyr eu goruchwyllo bob amser yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau ac na chânt byth eu gadael ar eu pen eu hunain gyda chleifion. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r myfyrwyr gwblhau cwrs rhagarweiniol sy'n cyfateb i hyfforddiant diogelu lefel 1 er mwyn sicrhau eu bod yn gallu deall ac adnabod arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod ac yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon yn briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y myfyrwyr yn cwblhau cwrs rhagarweiniol sy'n cyfateb i hyfforddiant diogelu lefel 1 fel rhan o'u dysgu yn y coleg.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod trefniadau ar waith yn y ganolfan i sicrhau diogelwch cleifion wrth dderbyn triniaeth. Roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu a'i galibradu er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn gweithio'n gyson ac yn ôl y disgwyl.

Roedd protocol triniaeth manwl a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel i gleifion ar gael. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau yn ystod yr arolygiad a oedd y protocol wedi cael ei ddatblygu gan ymarferydd meddygol arbenigol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael eglurder ynglŷn â hyn gan wneuthurwr y peiriant IPL.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth arbenigol ar ddiogelwch y peiriant IPL a'i ddefnydd gweithredol o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y rheolau lleol³ ar waith yn y ganolfan a'u bod wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, gwelsom mai yn 2016 y cyhoeddwyd y set ddiwethaf o reolau lleol cyn hyn. Nid yw hyn yn unol ag amodau cofrestriad y gwasanaeth ag AGIC sy'n gofyn bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf gan arbenigwr perthnasol ym maes laserau neu oleuni pwls dwys (gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau).

Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r ganolfan yn y dyfodol.

³ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf.

Gwnaethom nodi bod y rheolwr cofrestredig a phob myfyriwr wedi llofnodi'r rheolau lleol presennol, a oedd yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn cytuno i'w dilyn wrth drin cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y protocol triniaeth ar gyfer y peiriant IPL wedi cael ei lunio gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y rheolau lleol sydd ar waith yn y ganolfan yn cael eu hadolygu gan ei Gyngorydd Diogelu rhag Laserau o leiaf unwaith y flwyddyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁴ i fod yn ddefnyddiwr cymwys o'r peiriant IPL, gan ei bod wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ a hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant IPL ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Caiff y myfyrwyr eu haddysgu ar sut i ddefnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel gan y rheolwr cofrestredig yn rhinwedd ei rôl fel Goruchwyliwr Diogelu Laser. Mae'r myfyrwyr yn astudio pynciau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth fel rhan o'u cwrs. Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig rhoi cam asesu ar waith i ddangos tystiolaeth bod y myfyrwyr yn ddefnyddwyr cymwys cyn gadael iddynt symud ymlaen at y cam ymarferol, sef rhoi triniaethau i gleifion.

Roedd amrywiaeth o gyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwr IPL. Gwelsom fod y sbectol a'r gogls yn cael eu cadw mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

⁴ [Lasers, intense light source systems and LEDs – guidance for safe use in medical, surgical, dental and aesthetic practices.](#)

⁵ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio peiriannau laser yn ddiogel.

Ni chafodd unrhyw gleifion driniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y rhagofalon diogelwch a gymerir yn ystod triniaethau. Mae arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth yn rhybuddio bod y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio a chaiff yr ystafell ei chloi er mwyn atal unrhyw unigolion anawdurdodedig rhag dod i mewn yn ystod triniaethau. Gwelsom fod storfa wedi'i lleoli drws nesaf i'r ystafell driniaeth; roedd modd i aelodau eraill o staff yn y ganolfan gael mynediad iddi. Roedd yr unig ddrws i'r storfa y tu mewn i'r ystafell driniaeth. Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ac awgrymu y dylai ystyried creu mynedfa arall i'r storfa nad yw yn yr ystafell driniaeth er mwyn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod allwedd y peiriant IPL yn cael ei thynnu allan ar ôl pob apwyntiad er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n ddiogel pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Gwelsom fod asesiad risg wedi cael ei gynnal pan gofrestrwyd y gwasanaeth ag AGIC yn y lle cyntaf i nodi a lleihau unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant IPL ac amgylchedd yr ystafell driniaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'r rheolwr cofrestredig wedi cyfathrebu o bell yn ddiweddar i gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r amgylchedd na chynllun yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddiogel i ddarparu triniaethau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cam asesu ar waith fel rhan o'r cwrs er mwyn rhoi tystiolaeth i ddangos bod y myfyrwyr yn gymwys i ddefnyddio'r peiriant IPL cyn trin cleifion.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad ei myfyrwyr yn gyson drwy gydol eu cwrs er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gofal unigol diogel ac effeithiol i gleifion.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol ag arferion gorau a chanllawiau proffesiynol, a'u bod yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion. Roedd nodiadau'r cleifion yn fanwl ac o ansawdd da, ac roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaeth cleifion yn cael ei chadw.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur y cleifion yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo er mwyn atal mynediad iddynt heb awdurdod.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i sicrhau bod y myfyrwyr yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael i'r rheolwr cofrestredig a oedd yn cael eu diweddarau yn unol â'r rheoliadau.

Byddai'r weithdrefn gwyno yn sicrhau y gellid ymdrin â chwynion cleifion yn effeithiol ac yn amserol. Fodd bynnag, gallai'r gwasanaeth wneud mwy i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r weithdrefn.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Canolfan Gwallt, Harddwch a Holisteg Broadway yn rhan o Goleg Gŵyr Abertawe ac fe'i defnyddir gan fyfyrwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o gyrsiâu triniaeth harddwch a holistaidd.

Mae'r rheolwr cofrestredig wedi'i chofrestru fel y tiwtor cwrs ar gyfer theori a defnyddio laser ac IPL. Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael i'r rheolwr cofrestredig drwy'r coleg. Gwnaethom nodi bod y polisiâu hyn wedi cael eu hadolygu bob tair blynedd yn unol â'r rheoliadau.

Gwelsom fod gan y ganolfan dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol er mwyn ei hamddiffyn rhag ceisiadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder â'r ganolfan wedi'i hamlinellu yng nghanllaw'r cleifion. Gwelsom y byddai'n galluogi'r rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael ag unrhyw gwynion yn effeithiol ac yn amserol, ac yn

cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, byddai'n arfer da petai copïai o'r canllaw i gleifion ar gael wrth ddesg y dderbynfa fel bod y cleifion yn ymwybodol o'r weithdrefn gwyno.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd erioed wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid rhoi system ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon sy'n dod i law'r ganolfan yn y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth rhoi system ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon sy'n dod i law'r ganolfan.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gan y rheolwr cofrestredig y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol i fod yn diwtor ar y cwrs a sicrhau bod ei myfyrwyr yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant IPL, ac roedd yn ymrwymedig i gadw ei sgiliau a'i gwybodaeth yn gyfredol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus⁶ (DPP).

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei bod yn cael arfarniad blynyddol gyda'i huwch-reolwr i gael adborth ar ei pherfformiad a nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael sgysiau wythnosol gyda phob un o'i myfyrwyr er mwyn rhoi cymorth unigol iddynt drwy gydol y cwrs.

⁶Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r broses o ddogfennu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a gafwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol er mwyn helpu i wella diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod gan y rheolwr cofrestredig dystysgrif addas gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu i gydymffurfio â'r gofynion rheoliadol sy'n nodi y dylid sicrhau bod gan y staff gymeriad da a'u bod yn cyrraedd safonau uniondeb addas.

Gwnaethom sôn yn gynharach yn yr adroddiad fod myfyrwyr yn cael eu goruchwyllo bob amser gan y rheolwr cofrestredig yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau er mwyn helpu i amddiffyn cleifion rhag gofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Gwallt, Harddwch a Holisteg Broadway

Dyddiad arolygu: 02 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i gleifion lofnodi yn ystod pob sesiwn driniaeth er mwyn cadarnhau p'un a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol ai peidio.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 7	Datblygu dogfen i alluogi cleifion i lofnodi er mwyn cadarnhau a fu unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd
Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i gynnwys crynodeb o farn y cleifion am eu	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	I'w gynnwys yn y Canllaw i Gleifion.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
profiadau o ofal a thriniaeth yn y ganolfan.	(Cymru) 2011			
Mae'n rhaid diweddarau'r canllaw i gleifion i roi gwybod i gleifion â phroblemau symudedd am y problemau hygyrchedd yn y ganolfan.	Rheoliad 7	Caiff hwn ei ddiweddarau a chaiff gwybodaeth ei nodi yn y Canllaw i Gleifion.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd
Rhaid i'r gwasanaeth roi system ar waith i gasglu adborth rheolaidd gan y cleifion ar eu profiadau o'r driniaeth a'r gofal a gawsant.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19 (2)(e)	Ffurflen adborth dienw.	Lisa Hopkins	Diwedd Mehefin 2020
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y myfyrwyr yn cwblhau cwrs rhagarweiniol sy'n cyfateb i hyfforddiant diogelu lefel 1 fel rhan o'u dysgu yn y coleg.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 11	Rwyf wedi e-bostio'r person perthnasol i drefnu'r hyfforddiant hwn. Caiff ei gwblhau gan y myfyrwyr yn fewnol.	Lisa Hopkins	Hydref 2020
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y protocol triniaeth ar gyfer y peiriant IPL wedi cael ei lunio gan ymarferydd meddygol arbenigol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rwyf wedi cysylltu ag Energist ac wedi cael gwybod bod y protocol ei hun wedi'i gymeradwyo gan ymarferydd meddygol.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 45(1)			
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y rheolau lleol sydd ar waith yn y ganolfan yn cael eu hadolygu gan ei Gynghorydd Diogelu rhag Laserau o leiaf unwaith y flwyddyn.	Amodau cofrestru AGIC	Nodwyd hwn fel nodyn atgoffa i'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau adolygu'r Rheolau Lleol fis Chwefror nesaf. Byddaf hefyd yn cysylltu â'n Cynghorydd Diogelu rhag Laserau cyn dychwelyd i'r gwaith, oherwydd COVID-19.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd/ parhaus
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cam asesu ar waith fel rhan o'r cwrs er mwyn rhoi tystiolaeth i ddangos bod y myfyrwyr yn gymwys i ddefnyddio'r peiriant IPL cyn trin cleifion.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 24	Y myfyrwyr i sefyll prawf Craidd Gwybodaeth cyn rhoi unrhyw driniaethau i gleientiaid.	Lisa Hopkins	Awst
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth rhoi system ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon sy'n dod i law'r ganolfan.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 24	Mae'r weithdrefn gwyno wedi'i nodi yn y Canllaw i Gleifion Hefyd, mae gweithdrefn gwyno'r coleg ar waith.	Lisa Hopkins	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Lisa Hopkins

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 02 Mehefin 2020